

**PWYLLGOR CRAFFU'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A
DIOGELWCH CYMUNEDOL**

(Microsoft Teams / Hybrid Council Chamber)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 20 Ebrill 2023

Cadeirydd:	Cynghorydd C.Galsworthy
Is-gadeirydd:	Cynghorydd H.C.Clarke
Cynghorwyr:	J.Jones, P.D.Richards, M.Spooner, D.Thomas, A.R.Aubrey a/ac S.Rahaman
Swyddogion sy'n Bresennol:	R Davies, A.Jarrett, A.Thomas, K.Warren, Wellington, S.Waite and C.Jones, M.Shaw, V.Smith, A.J.Thomas, D.Tiddy, M.Weaver, H.Short, C.Howard, L.Potterton, E.Wellington, A.Evans, S.Coffey and A.Thomas
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr S.Harris, J.Hale and A.Llewelyn.

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 6, 7, 10, 11, 12, 13 a 14.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. PLANT AR EU PEN EU HUNAIN SY'N CEISIO LLOCHES

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant gynnwys yr adroddiad. Hysbyswyd yr Aelodau fod sylwadau wedi'u cyflwyno i'r Swyddfa Gartref o ran sut mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn dod i mewn i'r awdurdod.

Ar hyn o bryd mae'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi rhwng 14 a 19 oed ac maent i gyd yn fechgyn ac o gefndiroedd diwylliannol gwahanol. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r bobl ifanc pan gyrhaeddodd nhw i benderfynu a oedd y pecynnau croeso'n addysgiadol, a'r hyn y byddai'r bobl ifanc yn awyddus i ymgysylltu ag ef wrth symud ymlaen. Mae'r bobl ifanc yn awyddus i ddysgu am ddiwylliant Cymru ac maent wedi cynnal cyfres o weithgareddau i gefnogi eu dysgu. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda Swansea.com sy'n gweithio'n benodol gyda'r sefyllfa ehangach i ffoaduriaid, gan gynnwys teuluoedd Wcreinaidd.

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn wynebu trafferthion o ran llety ar gyfer y lleoliadau 18+ oed. Mae rhagamcanion ar gyfer derbyniadau yn y dyfodol wedi bod yn anodd iawn i'w pennu gyda'r Swyddfa Gartref. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dweud y gall fod angen i'r awdurdod dderbyn hyd at 14/15 o bobl ifanc eraill. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n agos gyda chomisiynu i benderfynu sut maent yn rhagweld anghenion yr awdurdod yn y dyfodol ac yn ddelfrydol bydd yn rhoi cynllun gwaith 3-5 mlynedd ar waith, fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael gan y Swyddfa Gartref yn ei gwneud hi'n anodd.

Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyswllt wedi'i wneud gyda'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â darparu cymorth ar gyfer materion iechyd meddwl a all godi. Dywedodd swyddogion fod gweithio mewn partneriaeth ar waith. Mae llwybr i mewn drwy'r meddyg teulu a hefyd dîm therapiwtig mewnol sy'n gallu cynorthwyo gydag eitemau wrth iddynt godi.

Pwysleisiodd swyddogion ba mor agored i niwed y mae'r plant, a'r trawma y gallent fod wedi'i brofi yn eu gwlad eu hunain ac ar eu taith i'r DU. Mae pryderon swyddogion yn ymwneud â'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol a'r trefniadau diogelu sy'n cael eu rhoi ar waith i'r plant unwaith maent yn cyrraedd y DU.

Nodwyd bod gan y Swyddfa Gartref broses codi lefel rhybudd a bydd yn cyhoeddi llythyr diffyg cydymffurfio ar gyfer unrhyw awdurdod nad yw'n rhoi atgyfeiriad o fewn 20 niwrnod i'w dderbyn. Holodd yr

Aelodau beth fyddai llythyr diffyg cydymffurfio yn ei olygu i'r cyngor. Dywedodd swyddogion mai cyfarfod gyda'r Swyddfa Gartref fyddai yn bennaf i egluro pa anawsterau yr oedd yr awdurdod yn eu hwynebu.

Amlinellodd swyddogion fod pob person ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn flaenoriaeth ac mae ganddynt anghenion gwahanol, sy'n gofyn am wahanol sgiliau. Mae'r awdurdod yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth.

Nodwyd yr eitem er gwybodaeth.

5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Strategaeth Perthnasoedd Iachach ar gyfer Cymunedau Cryfach

Cynhyrchwyd y strategaeth gyntaf yn 2017 yn dilyn cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Cafodd y strategaeth hon ei diwygio a'i hadolygu ar gyfer y cyfnod 2020-2023. Mae'r strategaeth ar gyfer 2023-2026 bellach yn gofyn am ymgynghoriad. Dywedodd swyddogion fod COVID-19 wedi arafu rhai o'r eitemau, fodd bynnag, maent wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth ddrafft gyfredol er mwyn iddynt barhau i gael eu datblygu.

Mae'r prif faes newid i'r strategaeth ddrafft yn dod o dan Bennod 7, sy'n amlinellu'r amcanion a'r camau gweithredu y bydd y grŵp arweinyddiaeth yn eu blaenoriaethu i fwrw ymlaen â nhw. Yn dilyn cytundeb ar y strategaeth, bydd adroddiadau cynnydd blynyddol yn cael eu cynhyrchu.

Holodd yr Aelodau a fyddai'r sefydliadau partner yn gallu mynychu cyfarfod yn y dyfodol fel y gall aelodau ddeall eu cylch gwaith a'u rôl yn y strategaeth yn well.

Dywedodd swyddogion, er bod Llywodraeth Cymru'n awyddus i'r gwaith o fewn y strategaeth gael ei wneud yn rhanbarthol, roedd partneriaid yn awyddus i sicrhau bod gwaith lleol hefyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan gydnabod bod pob cymuned yn unigol.

O ran gwersi perthynas iechyd sy'n digwydd mewn ysgolion, holodd yr aelodau a oedd rhieni wedi derbyn y gwersi hyn yn gyffredinol. Cadarnhaodd swyddogion fod y gwersi wedi cael eu cyflwyno mewn ysgolion ers nifer o flynyddoedd a hyd yma, ni chafwyd unrhyw

wrthwynebiad iddynt. Fodd bynnag, gyda'r newidiadau diweddar i'r cwricwlwm perthynas a rhywioldeb, mae llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod gan rieni'r wybodaeth gywir o ran yr hyn y mae'r newidiadau i'r cwricwlwm yn ei olygu.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Cynllun Ardal Partneriaeth Gorllewin Morgannwg 2023-2027

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel y'i dosbarthwyd o fewn yr agenda.

Amlinellodd swyddogion y pwyntiau allweddol yn y ddogfen. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r strategaeth, fodd bynnag bydd y cynllun gweithredu'n cael ei gyflwyno cyn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n gallu cynorthwyo gyda gwahodd y grŵp amlasiantaeth i gyfarfod yn y dyfodol i siarad am y gwaith rhanbarthol sy'n cael ei wneud.

Mynegodd yr aelodau bryderon am y ffaith ei bod hi'n anodd ar brydiau i weld cynnwys y ddogfen strategaeth yn cael ei weithredu o fewn y gymuned. Byddai'n ddefnyddiol gwahodd partneriaid allanol i gyfarfod yn y dyfodol i drafod hyn.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

I nodi er gwybodaeth.

7. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynu gwahardd y cyhoedd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

9. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Parhau i Gefnogi Teuluoedd sydd wedi Ymgartrefu dan y Cynllun Adleoli a Chynorthwyo Affganiaid

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

Trefniadau Cytundebol ar gyfer Gwasanaethau'r Trydydd Sector ac Anrheoliadol a ariennir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

Trefniadau Cytundebol ar gyfer ystod o Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc a ariennir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

Adroddiad Rheolwr Hillside

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

Cynllun ECO4 Flex

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan Fwrdd y Cabinet.

TRAILER_SECTION>

CADEIRYDD